

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Materion Ewrop

Cynhyrchwyd gan Swyddfa UE Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 13_Mai/Mehefin



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r trydydd rhifyn ar ddeg o Materion Ewrop, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf bob mis am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Nodwyd dengmlwyddiant cynnal etholiadau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Mai, ac roedd hi'n amserol cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn pryd y cefais i, fy nghydweithwyr ar y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, ac Aelodau eraill yn y Senedd, gyfle i drafod cyfraniad yr Undeb Ewropeaidd i ddeng mlynedd gyntaf datganoli yng Nghymru a hynny yng nghyd-destun Diwrnod Ewrop. Roeddwn yn falch o'r brwdfrydedd yr oedd ac y mae'r drafodaeth ar Ewrop yn ei ennyn yng Nghymru, ynghyd â'r gydnabyddiaeth o gyfraniad positif yr Undeb Ewropeaidd dros y cyfnod hwn, yn fwyaf nodedig wrth gwrs, drwy'r cronfeydd strwythurol.

I nodi Diwrnod Ewrop, cynhaliwyd derbyniad yn y Cynulliad a drefnwyd gan gynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, a chymerodd Jeff Cuthbert, Mike German a Rhodri Glyn Thomas, rhai o'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor, ran mewn seminar a drefnwyd gan Senedd yr Alban, a oedd hefyd yn cynnwys gwleidyddion o nifer o ranbarthau Ewropeaidd fel Baden-Württemberg, Catalwnia a Fflandrys.

Cynhelir etholiadau Senedd Ewrop ar 4-7 Mehefin ac rydym yn edrych ymlaen i weithio yn y dyfodol â'r pedwar Aelod a gaiff eu hethol i gynrychioli Cymru yn Senedd Ewrop.

Yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol cynhaliwyd yr ail sesiwn dystiolaeth i'n hymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, ac roedd hi'n bleser croesawu Graham Meadows, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth dros Bolisi Rhanbarthol, i Gaerdydd. Cawsom sesiwn ddifyr iawn, yn edrych ar sut y gall cyfeiriad y polisi yn y dyfodol effeithio ar Gymru, a sut mae'r ddadl yn datblygu ym Mrwsel. Roedd hi hefyd yn bleser croesawu'r Cynghorydd Andrew Mitchell, deiliad portffolio economaidd Cyngor Cernyw, sef yr unig Ardal Gydgyfeirio arall yn y DU ar gyfer 2007-2013, i glywed sut mae'r drafodaeth yn datblygu yng Nghernyw.

Ar 30 Mehefin, byddwn yn clywed tystiolaeth gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, a byddwn hefyd yn cynnal sesiynau ym mis Mehefin gyda chynrychiolwyr o Business Europe, Saxony-Anhalt, a rhanddeiliaid o Gymru fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ar 28 Ebrill, daeth y broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad i'r Gyfarwydddeb ddrafft ar Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol i ben gyda thystiolaeth gan Carol Lamyman-Jones, Cyfarwyddwr Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, a gobeithiwn gyhoeddi ein hadroddiad interim ym mis Gorffennaf. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r trafodaethau ar y Gyfarwydddeb drafft.

Ar 20 Mai, cafwyd dadl yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar ymateb llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i sybsidiaredd.

Ym mhwyllgorau eraill y Cynulliad, bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn clywed tystiolaeth gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 17 Mehefin yn y sesiwn olaf o'i ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd o Gymru. Aeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Swydd Gaerloyw i glywed tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad i lifogydd, a chyfarfu â chynrychiolwyr cymunedau lleol a effeithiwyd arnynt gan y llifogydd difrifol a darodd y sir yn 2007. Cyhoeddodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ei adroddiad ar ei ymchwiliad i ymateb llywodraeth Cymru i'r argyfwng economaidd ac ariannol, tra bu'r Pwyllgor Archwilio'n trafod adroddiad diweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith i feddygon iau ar draws GIG Cymru.

Yn olaf, cawsom newyddion trist iawn am farwolaeth Kathryn Jenkins, Clerc y Pwyllgor Menter a Dysgu, a chyn-Glerc i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Bydd holl Aelodau'r Cynulliad a'i chydweithwyr yn ei cholli'n fawr. Mynegwn ein cydymdeimlad dwysaf fel Cynulliad â theulu a ffrindiau Kath.

Sandy Mewies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol



Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad—

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- Ymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE: ar 30 Mehefin, bydd Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru yn rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad, a threfnwyd sesiynau tystiolaeth â Business Europe, cynrychiolaeth Saxony-Anhalt i'r UE a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer mis Mehefin.
- Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol: bydd y Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad drafft interim ym mis Mehefin.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- Lleihau Allyriadau Carbon: bydd y Pwyllgor yn lansio ei adroddiad terfynol ar leihau allyriadau carbon yng Nghymru ym mis Mehefin.
- Ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru: mae'r Pwyllgor yn bwriadu clywed tystiolaeth bellach ar yr ymchwiliad hwn ym mis Mehefin.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd o Gymru: bydd yr Is-bwyllgor yn clywed tystiolaeth gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 17 Mehefin fel rhan o sesiwn olaf yr ymchwiliad hwn. Bydd y Pwyllgor hefyd yn clywed tystiolaeth gan yr Athro Terry Marsden a'r Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd.
- Ymchwiliad i system adnabod electronig ar gyfer defaid (EID): bydd y Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar 3 Mehefin, ac yn ddibynnol ar ddod i gytundeb, anfonir yr adroddiad at y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar gyfer ei gymeradwyo ym mis Mehefin.

Edrych yn ôl: pynciau'n ymwneud â'r UE y bu pwyllgorau'r Cynulliad yn eu trafod—

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol: ar 28 Ebrill rhoddodd Carol Lamyman-Jones, Cyfarwyddwr Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.
- Ymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE: ar 12 Mai, rhoddodd Graham Meadows, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth dros Bolisi Rhanbarthol, a'r Cynghorydd Andrew Mitchell o Gyngor Cernyw, dystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad hwn.
- Pwyllgor y Rhanbarthau a Chyngor Ewrop: ar 28 Ebrill, rhoddodd Christine Chapman a'r Cynghorydd Bob Bright y wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith fel cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, a rhoddodd y Cynghorydd Ronnie Hughes y diweddaraf i'r Pwyllgor am ei waith fel aelod o Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop.

— Adroddiad ar Sybsidiaredd: ar 20 Mai cafwyd dadl yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i sybsidiaredd.

Y Pwyllgor Archwilio

— Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith: siaradodd Archwilydd Cyffredinol Cymru am ei adroddiad diweddar, *Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd i feddygon iau ar draws GIG Cymru*. Soniodd ei bod yn debygol na fydd y GIG yng Nghymru yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r cyfyngiad oriau gwaith 48 awr yr wythnos i feddygon iau pan ddaw'r Gyfarwyddeb i rym ar 1 Awst eleni. Er bod y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y canfyddiadau hyn, daeth i'r casgliad nad oedd angen iddo ymchwilio ymhellach a phenderfynodd i beidio â chynnal ymchwiliad i'r mater. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Llywodraeth yn gofyn am ei hymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

— Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirwasgiad economaidd byd-eang presennol: cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar yr ymchwiliad hwn ar 14 Mai.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

— Ymchwiliad i Lifogydd yng Nghymru: lansiodd y Pwyllgor ei ymchwiliad ar 29 Ebrill ac ymwelodd â Chaerloyw ar 11 Mai i glywed tystiolaeth am arfer da ar gyfer ei ymchwiliad i lifogydd.

— Ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon wrth gynhyrchu ynni: lansiodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ar 14 Mai.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad—

— Pwyllgor y Rhanbarthau: cymerodd Christine Chapman ran fel siaradwr arbenigol yn ystod trafodaeth bwrdd crwn ar ddyfodol Strategaeth Lisbon ar 29 Ebrill a drefnwyd fel rhan o'r drafodaeth gefndir i hysbysu ei barn ar ddyfodol y Strategaeth. Ymunwyd â hi gan banel o arbenigwyr, gan gynnwys yr Athro Iain Begg o Ysgol Economeg Llundain a chynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd ac amryw o rwydweithiau'r UE.

— Ar 8 Mai, cymerodd Rhodri Glyn Thomas, Mike German a Jeff Cuthbert, aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, ran mewn seminar Diwrnod Ewrop a drefnwyd gan Senedd yr Alban. Roedd gwleidyddion o ranbarthau Ewropeaidd eraill hefyd yn cymryd rhan.

— Ar 15-17 Mehefin bydd grŵp trawsbleidiol o Aelodau Cynulliad yn cymryd rhan yn neugeinfed cynhadledd flynyddol Ynysoedd Prydain a Rhanbarthau Môr y Canoldir yn Guernsey.

Ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd—

- Ar 28 Ebrill, lanswyd cangen Cymru o Gymdeithas Prydain-Awstralia yn swyddogol gan y Llywydd yn ngŵydd Ei Ardderchogrwydd John Dauth, Uchel Gomisiynydd Awstralia i'r Deyrnas Unedig, mewn digwyddiad a noddwyd gan Lorraine Barrett, AC.
- Cynhaliwyd derbyniad yn y Senedd i nodi Diwrnod Ewrop, ynghyd â stondin arddangos, lle cafwyd areithiau gan Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd, ac Andy Klom, pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, a drefnodd y digwyddiad.
- Bu Ei Ardderchogrwydd Yury Viktorovich Fedotov, Llysgennad Rwsia i'r DU, ar daith o'r Senedd ym mis Mai fel rhan o'i ymweliad â Chymru a drefnwyd gan lywodraeth Cymru.
- Cyfarfu dirprwyaeth ryngwladol o uwch swyddogion milwrol o'r Coleg Astudiaethau Amddiffyn Brenhinol â William Graham, un o Gomisiynwyr y Cynulliad, yn ystod eu hymweliad â Chymru ym mis Mai.
- Ar 10 Mehefin cynhelir derbyniad ar ran y Cyngor Prydeinig yn y Senedd i Ysgolheigion Chevening sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, a fydd yn cynnwys gair o groeso gan y Dirprwy Lywydd.

Lincs

- [Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
- [Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)
- [Tudalennau'r Pwyllgorau](#)
- [Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

Am ragor o wybodaeth—

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)

Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth

Seneddol y Cynulliad)

Tŷ Cymru

6th Floor

Rond Point Schuman 11

1040 Bruxelles

Belgium

Ffôn_0032 2 226 66 92

Neu

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cysylltiadau Allanol

Tŷ Hywel (3ydd Llawr)

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn_0044 (0)29 2089 8642/8897

assembly.bookings@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.